

Gemau a Gweithgareddau ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol

Celf

Tynnu llun ar gefn rhywun

Mae un plentyn yn tynnu llun gwrthrych, llythyren neu rif ar gefn plentyn arall sy'n gorfod dyfalu beth yw e. Amrywiad 1: mae'n rhaid i'r plentyn sy'n cael llun wedi'i dynnu ar ei gefn dynnu llun y gwrthrych hefyd. Amrywiad 2: Mae'r gwrthrych yn cael ei 'basio ymlaen' drwy sibrwd o un i'r llall (*Chinese Whispers*) gyda'r plentyn terfynol yn dyfalu neu'n tynnu llun y gwrthrych.

Cefn wrth gefn

Mae 2 blentyn yn eistedd cefn wrth gefn, mae'r 'gwyliwr' yn dewis gwrthrych y mae'n gallu ei weld ac yn ei ddisgrifio i'r gwrandäwr heb ddefnyddio geiriau allweddol, a hwnnw'n gorfod dyfalu beth ydyw. Amrywiad: mae'n rhaid i'r gwrandäwr dynnu llun y gwrthrych.

Tynnu llun hwn

Yn debyg i Cefn wrth Gefn, ond mae un plentyn yn cael llun i'w ddisgrifio i'r llall, sydd wedyn yn gorfod tynnu ei lun.

Drama

Pasio'r Clap

Mae pawb yn sefyll mewn cylch, mae 'clap' yn cael ei basio o gwmpas ond dim ond trwy wneud cyswllt llygad. Gall y clap fynd y naill ffordd neu'r llall. Amrywiad 1: ychwanegu clap arall. Amrywiad 2: pasio'r clap ar draws y cylch.

Cyfrif i 20 (gyda'r llygaid ar gau / yn wynebu am allan)

(Sefyll neu eistedd mewn cylch sydd orau ar gyfer hyn) Mae'r plant yn cyfrif i 20 (neu rif arall), pob un yn dweud un gair yn unig, ni chaniateir i neb arall siarad. Daliwch ati, gan geisio mynd yn gyflymach ac yn gyflymach. Amrywiad 1: gwnewch hyn gyda'r llygaid ar gau. Amrywiad 2: sefwch ymhellach ar wahân neu'n wynebu am allan. Amrywiad 3: Defnyddiwch iaith arall – Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg ac ati.

Cylchoedd stori

Mae plant yn adrodd stori un frawddeg ar y tro. Amrywiad 1: ar gyfer plant hŷn, mae'r plant ond yn defnyddio un gair – caniateir i blant ychwanegu atalnodi os oes angen gwneud hynny (h.y. bydd un plentyn yn dweud atalnod llawn, marc cwestiwn ac ati OS yw'n gwneud synnwyr). Amrywiad 2: Ceisiwch gadw'r frawddeg / stori i fynd mor hir â phosibl heb gyrraedd atalnod llawn.

Fferu Ffrâm / Clip Actio

Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau o tua 5 a rhoddir senario yn gyfrinachol iddynt i'w actio (gwisgo, cerdded y ci ac ati – gall fod yn gysylltiedig â phwnc). Yna mae'r plant yn gweithio ar greu

llun bywyd llonydd o'r hyn sy'n digwydd. Ar ôl amser penodol, mae pob plentyn yn gwylio pob 'ffrâm fferru' yn ei dro gan geisio dyfalu beth sy'n digwydd. Amrywiad - Clip Actio: yr un peth â Fferru Ffrâm ac eithrio bod y plant yn cael symud, ond rhaid iddynt aros yn dawel o hyd.

Portreadau Teuluol

Yr un peth â Fferru Ffrâm ac eithrio bod pob grŵp yn cael yr un thema – i actio portread teuluol. Dylai'r teuluoedd fod yn seiliedig ar anifeiliaid i ddechrau – deinosoriaid, ieir, hwyaid, ac ati. Unwaith y byddwch chi'n adnabod eich grwpiau'n dda ac yn hyderus gyda'u dymameg deuluol a'u profiadau bywyd, fe allech chi gyflwyno teuluoedd dynol i wneud gweithgaredd penodol, ond gwnewch hyn gyda sensitifrwydd mawr.

Siarâds / Pwy ydw i?

Gêm siarâds ar gyfer y dosbarth. Amrywiad: papurau post-it ar bennau'r plant gydag enwau pobl enwog yn arddull y gêm 20 cwestiwn.

Ôl Traed Nain / Mam-gu (gyda dillad) / Trysor y Ddraig (hefyd yn dda ar gyfer Dawns)

Mae'r plant yn ceisio sleifio at Nain/Mam-gu / Taid/Tad-cu / y Ddraig sy'n eistedd ar gadair yn y blaen. Os bydd Nain/Mam-gu yn clywed sŵn, mae hi'n troi, ac mae'r plant yn rhewi. Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n symud fynd yn ôl a dechrau eto. Y cyntaf i gyffwrdd â chadair Nain/Mam-gu fydd y Nain / Mam-gu nesaf. Amrywiad 1: rhoi rhwystrau yn y ffordd. Amrywiad 2: mae'n rhaid i blant wisgo eitemau o ddillad cyn cyffwrdd â'r gadair. Amrywiad 3: chwarae'r gêm y tu allan ar wyneb llawr swnllyd.

Gêm y Drych

Mae'r plant yn gweithio mewn parau, un yn copïo symudiadau / mynegiant wyneb y llall. Gallwch gyflwyno elfen o gystadleuaeth os dymunwch.

1 2 3 Cyfnewid

Yn debyg i'r gêm Cyfrif i 20 ond gyda rhif llawer llai (mae'r rhif 4, 6, 8 i gyd yn gweithio'n dda) ac unwaith y bydd y rhythm wedi'i sefydlu, rydych chi'n cyfnewid gair neu sain arall yn lle rhif penodol. Ychwanegwch fwy a mwy o synau.

Ffurio Siâp

Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau i ffurfio siâp ac yna'n rhewi.

Gwyliwr nos

Yn debyg i'r gêm Cerfluniau Cerddorol (*musical statues*), heblaw bod un plentyn yn wylwr nos, a'r plant eraill yn gerfluniau symudol sy'n gorfod aros yn llonydd pan fydd y gwyliwr nos yn edrych. Estyniad: mae'r gwyliwr nos yn penodi Cyfarwyddwr i'r Amgueddfa/Oriel Gelf ac yna maent yn gosod y 'cerfluniau' i greu'r arddangosfa orau. Tynnwch lun ar y diwedd.

Straeon Sain (hefyd yn dda ar gyfer Cerddoriaeth)

Mae'r plant yn creu amrywiaeth o effeithiau sain ac yn eu rhoi mewn straeon. Gall y straeon fod yn rhai dosbarth cyfan, wedi'u creu'n fyrfyr gyda 'thîm sain' yn darparu effeithiau. Yna mae'r tîm sain a'r adroddwyr yn cyfnewid rôl.

Cerflunydd a Cherflun (hefyd yn dda ar gyfer Dawns)

Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau o 2 neu 3. Mae un plentyn yn gerflun, a'r llall/lleill yw'r cerflunydd. Mae'n rhaid i'r cerflunydd fowldio'r cerflun i siâp heb ei gyffwrdd. Mae'r plant yn myfyrio ar y cerfluniau amrywiol ar y diwedd.

Cerddoriaeth

Canu'n uchel, canu'n isel

Mae'n dda ar gyfer dechrau sesiwn ganu; fersiwn canu o Fy Nhro i, Eich Tro chi, sy'n gweld plant yn ailadrodd nodau uchel, nodau isel, tawel, cryf, patrymau canu ac ati.

Fy nhro i, eich tro chi (galw ac ateb) Gellir ei ddefnyddio mewn llu o sefyllfaoedd ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer cynnal cydrywiaeth yn y dosbarth.

Gweithgaredd galw ac ateb syml; mae'r athro'n rhoi patrwm/brawddeg, mae'r plant yn ailadrodd hynny.

Dilyn yr arweinydd

Enwebwch blentyn i fod yn arweinydd, sydd yn gosod patrwm, rhythm ac ati ac mae'n rhaid i'r lleill ymuno a dilyn. Yna trosglwyddir yr arweinyddiaeth i rywun arall. Dewiswch yn ofalus i ddechrau, yna ychwanegwch blant llai hyderus wrth i lefelau hyder godi.

Yn arddull... (hefyd yn dda ar gyfer drama)

Da ar gyfer canu/llafaredd/ynghaniad - ailadroddwch frawddeg neu ddarn yn arddull gwahanol gymeriadau – môr-leidr, canwr opera, canwr pop, plentyn ifanc iawn, rhiant llym, anifeiliaid ac ati.

Canfod y curiad

Mae'n rhaid i'r plant ganfod curiad a thempo darn o gerddoriaeth. Chwaraewch y gerddoriaeth, a chael y plant i 'orymdeithio / cerdded' o amgylch y neuadd/ystafell. Amrywiwch y cyflymder/tempo. Os yw hyn yn rhy anodd, dechreuwch trwy guro drwm mewn curiad rheolaidd.

Clapio'r rhythm

Yn debyg i Fy Nhro i, Eich Tro chi ond gyda chlapio yn unig. Amrywiad: ychwanegu offerynnau taro'r corff.

Dim clapio hwn yn ôl

Ymarferwch y rhythm 'Dim clapio hwn yn ôl', yna chwaraewch 'Fy Nhro i, Eich Tro chi', gyda'r plant yn gwrando er mwyn osgoi chwarae'r rhythm, Dim clapio hwn yn ôl. Mae plant yn cael fforffed os ydyn nhw'n chwarae'r rhythm trwy ddamwain.

Cerddoriaeth Glasurol i wneud argraff

Holst, Mars <https://youtu.be/vzXX9XFyemg>

Mussorgsky, Night on a Bald Mountain

Mussorgsky, Pictures at an Exhibition

Saint-Saens, Carnival of the Animals

Mendelssohn, Fingal's Cave

Sibelius, The Swan of Tuonela

Prokofiev, Peter and the Wolf

Dukas, The Sorcerer's Apprentice

Strauss, Also Sprach Zarathustra

Dvorak, New World Symphony (2^{il} a 4^{ydd} symudiad)

Bach, Toccata and Fugue in D minor

Bach / Gounod, Ave Maria

Grieg, In the Hall of the Mountain King

Holst, Mars https://youtu.be/vzXX9XFyemg Mussorgsky, Night on a Bald Mountain	Canolbwyntio ar gelfyddyd – gwrando ar y darn cyfan o gerddoriaeth, yna mae'r plant yn tynnu llun o sut mae'n gwneud iddyn nhw deimlo.
Mussorgsky, Pictures at an Exhibition Saint-Saens, Carnival of the Animals Prokofiev, Peter and the Wolf	Mae gan bob un elfen naratif iddynt, mae stori Peter and the Wolf yn cael ei hadrodd yn llawn, ac mae'r lleill yn cynnwys symudiadau. Er enghraifft, gellir chwarae Carnival of the Animals, un adran ar y tro, gyda'r plant yn dyfalu'r anifail yna'n tynnu llun ohono a'i ddefnyddio i wneud collage. Yna gellid defnyddio hyn fel arddangosfa neu fan cychwyn ar gyfer tasg canfod ffeithiau am yr anifeiliaid, neu naratif stori ddosbarth / unigol.
Mendelssohn, Fingal's Cave Sibelius, The Swan of Tuonela	Yn dda ar gyfer pynciau'n ymwneud â dŵr. Gellid ei ddefnyddio hefyd fel man cychwyn ar gyfer celf.
Holst, Mars https://youtu.be/vzXX9XFyemg Mussorgsky, Night on a Bald Mountain Mussorgsky, Pictures at an Exhibition	Yn dda fel man cychwyn ar gyfer ysgrifennu straeon, bwrdd stori, sribed cartŵn, a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer gwneud ffilm.

Saint-Saens, Carnival of the Animals Mendelssohn, Fingal's Cave Sibelius, The Swan of Tuonela Dukas, The Sorcerer's Apprentice Strauss, Also Sprach Zarathustra Dvorak, New World Symphony (2^{il} a 4^{ydd} symudiad) Grieg, In the Hall of the Mountain King	
Strauss, Also Sprach Zarathustra Holst, Mars https://youtu.be/vzXX9XFyemg	Yn dda ar gyfer pwnc yn ymwneud â'r Gofod